

Cyngor Cymuned Llanelian (336)

Cofnodion cyfarfod Mehefin 8, 2021 a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo am 7yh.

Presennol: Ian Evans, Dafydd Griffiths, Glenys Jones, Gordon Hayes, Carol Whitaker, Elfyn Hughes, John Griffiths, Hefina Williams, Owain Roberts, Carli Evans Thau (Clerc), Delyth Roberts (Ysgol Penysarn), Cyng Aled Morris Jones (hwyr)

Ymddiheuriadau: Alan Williams, Cyng Richard Griffiths

1 Croeso

Cadeirwyd y cyfarfod gan Ian Evans a bu croesawu pawb yn bresennol. Croesawyd Owain Roberts i'w gyfarfod cyntaf yn aelod o'r Cyngor.

2 Datgan Diddordeb

Hefina Williams – y fynwent
Ian Evans - Llwybrau

3 Miss Delyth Roberts (Ysgol Penysarn)

Croesawyd pennaeth newydd yr ysgol i'r cyfarfod a'i llongyfarch ar ei phenodiad. Bu Delyth Roberts gyflwyno ei hun ac amlinellu ei amcanion ar gyfer datblygu perthynas gryf rhwng yr ysgol a'r gymuned ehangach. Trafodwyd gwahanol brosiectau ble bu posib cydweithio e.e.

- arwyddion cyflymder / 20mya drwy'r pentref wedi eu dylunio gan blant yr ysgol; mae CSYM wedi cytuno onibai bod yr arwyddion ar dir preifat.
- cynnal cystadleuaeth blodau haul eto'r flwyddyn nesaf
- dylunio a gweithredu prosiect cysgdfannau yn y pentref
- 100 mlwyddiant y gofeb a gwasanaeth Sul y Cofio
- plannu bylbiau cennin pedr ar gyrrion y pentref

Cafwyd wybod bod yr ysgol yng nghanol datblygu dosbarth tu allan ac yn ehangu gweithgareddau tu allan megis garddio ac felly am fod yn fwy gweithgar yn y pentref hefyd ynghlwm a'r cwricwlwm newydd. Byddai cefnogaeth hefyd am weithgareddau a digwyddiadau cymunedol megis, ffeiriau, canu carolau ayyb.

Diolchwyd i Delyth Roberts am ymuno a'r cyfarfod ac am rannu ei gweledigaeth.

4 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod 11/5/2021. Cynnig Elfyn Hughes, eilio John Griffiths.

5 Materion yn Codi o'r Cofnodion

Nododd y clerc ei bod wedi anfon dogfen i'r aelodau cyn y cyfarfod gydag unrhyw ddiweddariadau.

5.1 Iaith y Cyngor – i'w drafod ymhellach ymlaen (pwyllgor cyllid a pholisi iaith)

5.2 Priffyrdd – cadarnhawyd derbyn ateb gan CSYM ond nodwyd siom nad oedd amserlen pendant wedi ei gynnwys. Nodwyd bod swyddogion yn ymateb yn gynt pan bydd copi o'r ebost yn cael ei anfon at y prif weithredwr. Deallwyd bod arwyddion 30mya newydd wedi eu gosod y tu allan i'r ysgol – gofynnwyd os oedd arwyddion 20mya yn mynd ar yr hen bolion?

Nodwyd nad oedd ymateb o gwbl am y palmant yn Dulas/Capel Sardis hyd yma. Roedd yr aelodau yn bryderus na fydd arian grant ar gael os na fydd dechrau ar y gwaith. Cytuno anfon ebost at Aled Morris Jones iddo ddilyn y

materion priffyrdd i fynu.

- 5.3 Hysbysfwrdd – wedi trafodaeth, cytuno byddai Hefina Williams a Glenys Jones yn glanhau'r gysgodfan, a byddai Ian Evans, Elfyn Hughes a Gordon Hayes yn trefnu ei baentio a gosod yr hysbysfwrdd yn ei le. Pwysleisiodd y clerc bod angen statudol i gael hysbysfwrdd ar gyfer dpgfennau'r Cyngor. GJ
HFW
INE
EH
GH
- 5.4 Binau (Mynydd Eilian a Nebo) – cafwyd ymateb gan CSYM eu bod wedi ymweld ar ardaloedd da sylw ac nad oedd tystiolaeth bod angen binau yma. Nodwyd mai'r rheswm nad oedd sbwriel oedd oherwydd bod nifer o drigolion lleol yn ei gasglu wrth gerdded yr ardal. Cytuno ymate i'r rheini oedd wedi gwneud cais am finiau a gofyn i Aled Morris Jones fynd ar ol y swyddogion gan nodi bod yr aelodau yn siomedig iawn ag ymateb CSYM. CT
AM
- 6 Diweddariadau**
- 6.1 **Caeau Chwarae** – oherwydd costau defnyddiau, cytuno mynd a'r pris oedd wedi ei gynnig gan D Holdsworth i gario mlaen ar hyd y llinell bresennol. Cynnig Gordon Hayes, eilio John Griffiths, unfrydol hapus. Y clerc i gysylltu i gadarnhau. CT
- Nododd Glenys Jones ei bod wedi derbyn mwy o brisiau am waith tarmacio ym Maes Llwyfo. Cytuno gwirio'r prisiau a chynnwys eitem ar agenda pwyllgor TMI mis nesaf. CT
GJ
- 6.2 **Llithrfa** – mae 30 goriad wedi eu dosbarthu hyd yma, a'r postyn bellach yn ei le. Cafwyd wybod bod warden wedi ei benodi ar gyfer Llanelian, Amlwch a Phorch Llechog i weithio ochr yn ochr a Maldwyn Griffith. CT
- 6.3 **Mynwent** – cafwyd cyfarfod ar y safle 4/6/2021 a bu'r clerc gadarnhau bod y Cofnodion wedi eu cylchredeg i'r aelodau er gwybodaeth. Bu aelodau'r pwyllgor gadarnhau bod y cofnodion yn gywir. Cytuno i'r clerc ysgfrifennu at y contractiwr yn unol a sylwadau'r pwyllgor. CT
- 6.4 **Cyllid a Pholisi** – cadarnhawyd bod crynodeb o gyfarfod y pwyllgor wedi ei anfon i'r aelodau er gwybodaeth ynghyd a copi drafft o'r polisi iaith wedi ei addasu ar gyfer y cyngor. Bu'r pwyllgor argymhell bod y cyngor yn mabwysiadu'r ddogfen ddrafft ac yn ei hafnon i'r comisiynydd iaith i'w gymeradwyo. Bu tynny sylw bod nifer o wallau yn y ddogfen ac nad oedd y Cymraeg a'r Saesneg yn gyson ond nad oedd posib ei newid – cytuno tynnu sylw'r comisiynydd. CT
- 6.5 **Cronfa Ty Moel Isaf (1717-1985)** – bydd y pwyllgor yn cwrdd am 6 o'r gloch cyn cyfarfod mis Gorffennaf y Cyngor (13/7/2021)
- 6.6 **Llwybrau** – cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod y pwyllgor wedi eu hafnon i'r aelodau er gwybodaeth. Derbyniwyd pris gan y contractiwr i dorri'r llwybrau ychwanegol gan nodi bod hy o fewn y gyllideb llwybrau. Cytuno hefyd bod y contractiwr yn torri llwybr Lletroed cyn gynted a phosib gan nodi bod nifer o gwynion am ordyfiant y cloddiau. CT

Bu Hefina Williams nodi bod grwp cerdded o Langoed wedi nodi pryder am warthog yn y ca ear hyd llwybr Cadi Rondol ac wedi newid eu taith o'r herwydd. Nid oes dyletswydd ar dirfeddianwr i ffensio llwybr sydd yn croesi ei dir, ond bu'r llwybr yma wedi ei ffensio yn y gorffennol. Cytuno disgwyl nes bydd y darn coll wedi ei fabwysiadu cyn edrych ar welliannau pellach.

Nodwyd cwynion am ddiffyg arwyddion ar y llwybr o Marie Currie hyd Nebo;

nodwyd bod y pwyllgor eisioes wedi tynnu sylw am hyn ac yn disgwyl cyfarfod safle gyda swyddog CSYM ynglyn a'r llwybr yma.

6.7 Pwyllgorau Allannol –

6.7.1 Cyngrair Twrcelyn – deallwyd bod y cyfarfod wedi ei ohurio oherwydd diffyg presenoldeb. Ni fu diweddariad am weithgareddau'r corff.

6.7.2 Llywodraethwyr yr Ysgol Gynradd – cafwyd grynoded gan Glenys Jones syn dilyn cyfarfod diwethaf y corff gan nodi bod y plant yn brysur iawn yn ymgymryd a gweithgareddau ymarferol tu allan ac yn mwynhau'n fawr. Nododd bod datblygiadau diweddar yn galonogol iawn wrth edrych ymlaen i'r dyfodol.

7 Cynllunio

7.1 **Ceisiadau** – bu un cais i'w drafod sef Bryn Glas, Llanelian (FPL2021/110), bu'r aelodau gefnogi'r cynllun.

CET

7.2 **Penderfyniadau** – cafwyd wybod am ddau benderfyniad gan CSYM sef Cae Ffynnon (wedi ei ganiatau) a 2 Bod Hyfryd (wedi ei wrthod). Nodwyd bod penderfyniad apel Bod Hyfryd wedi ei gylichredeg i'r aelodau. Mae rhannau o'r apel wedi ei ganiatau ac eraill wedi eu gwrthod - mae'r ddogfen yn fanwl iawn.

7.3 **Gorfodaeth** – dim manylion pellach

8 Materion Ariannol

8.1 **Taliadau** - cymeradwywyd y taliadau canlynol:

£544.44 Came and Company (Yswiriant)

£301.77 Cyflog Clerc

£50.00 Ty Gobaith (cyfraniad)

£100.00 J Alun Foulkes (archwiliad)

£200.00 D Holdsworth (caeau chwarae)

£143.88 Trwydded Zoom (hanner i'w ad-dalu gan CC Llanbadrig)

8.2 **Ceisiadau am Arian** – Dim

8.3 **Archwiliad 2020/21** – cadarnhawyd bod dogfennau archwiliad wedi eu hanfon at yr aelodau cyn y cyfarfod gan gynnwys adroddiad yr archwiliwr mewnol a'r ffurflen flynyddol. Bu'r clerch esbonio'r gwahaniaeth y soniwyd amdanynt yn adroddiad yr archwiliwr mewnol gan nodi mai arian TMI yn cael ei drosglwyddo o gyfrif banc TMI i gyfrif banc y cyngor oedd hwn. Mae'r cyfrifon banc i gyd yn enw'r Cyngor Cymuned ac felly yn cael eu cynnwys yn yr archwiliad blynyddol. Bu diolch i'r clerch am ei gwaith a derbyniwyd y ddau ddogfen.

CT

9 Iechyd a Diogelwch

Materion wedi eu trafod eisioes (caeau chwarae) a'r fynwent

10 Sedd Wag

Cadarnhawyd bod y broses swyddogol ar y gweill a bod y swyddfa etholaeth yn arwain ar hynnu.

11 Cofeb

Cadarnhawyd bydd yr aelodau perthnasol yn cwrdd 14/6/2021 am 6.30 o'r gloch. Er gwybodaeth, mae'r cyfreithiwr yn symud yn ei flaen gyda'r gwaith i gofrestru'r gofeb yn enw'r Cyngor.

GH
CW
HFW
EH

12 Cynllun Iaith Gymraeg

Wedi trafod eisioes – diweddariadau Pwyllgor Cyllid uchod

13 **Gohebiaeth**

Cadarnhaodd y clerc bod unrhyw ohebiaeth wedi ei anfon i'r aelodau drwy ebost wrth ei dderbyn.

Bu tynnu sylw at lythyr gan Virginia Crosbie yn ymwneud ag arolwg am wasanaeth fand eang ar yr ynys. Cytuno bod unrhyw un a diddordeb yn cysylltu a'r clerc am fanylion pellach.

14 **Unrhyw fater ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf**

14.1 Afeilion Ty Newydd, Gadfa – bu trafod hwn yn fras mis diwethaf, nid oes gwybodaeth pellach wedi dod i law. Cytuno cynnwys yr eitem ar agenda;r cyfarfod nesaf ac i'r clerc wneud ymholiadau gyda'r Gofrestrfa Tir am berchnogaeth y llecyn.

CT

15 **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor i'w gynnal nos Fawrth Gorffennaf 13, 2021 am 7 o'r gloch. Bydd pwyllgor Ty Moel Isaf yn cwrdd am 6 o'r gloch yr un noson.

Bu'r cyfarfod orffen am 20.40 o'r gloch

Arwyddwyd
Ian Evans
Cadeirydd

CET06/2021